



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Medi 2016 am 6.30yh  
yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 September 2016 at 6.30pm  
at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

**Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Clive Davies (yn y gadair/in the chair),  
Dai Brabrook, Mark Cole, Graham Evans, Melfydd George, Catrin Miles, Jane Roche,  
Akira Shimazaki.**

## **1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, bawb yn cynnwys aelodau'r wasg i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at lwyddiannau cymdeithasol nifer o weithgareddau'r dref dros gyfnod prysur yr haf. Llongyfarchodd Menter Aberteifi am sicrhau unwaith eto bod yr Ŵyl Afon a Bwyd wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Cyfeiriodd at y blodau prydfferth ar hyd y dref a diolchodd i'r Bachan Deche am ei ofal ohonynt. Cafodd gyfarfod gyda Mr John Hadlow, Arolygydd Gerddi a Meysydd y cyngor sir, ynglŷn â chynlluniau'r awdurdod am flodau'r dref a Gerddi Victoria y flwyddyn nesaf. Mae Mr Hadlow wedi cytuno danfon canllawiau ymlaen i'r cyngor. Da oedd gan y Maer gyhoeddi bod Grŵp Dinesig Ymddiredolaeth Aberteifi wedi ei sefydlu a bydd yn cael ei lansio'n swyddogol ar 10 Hydref. Llongyfarchwyd Ysgol Uwchradd Aberteifi ar lwyddiannau'r disgyblion yn eu harholiadau allanol eleni.**

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed everyone, including local press officers, to the meeting. He referred to the many events held throughout the town during the summer months and thanked all organisers for their excellent efforts. He congratulated Menter Aberteifi once again for staging the River & Food Festival so successfully. He commended the flower displays in town and thanked the Handyperson, Mr John Morris, for maintaining them in such splendour. The Mayor held a meeting regarding the future of the flower plants and containers and also Victoria Gardens with Mr John Hadlow, Ground Maintenance Supervisor, Parks & Gardens with the county council. Mr Hadlow agreed to forward information and directives to the council in due course. Cllr Davies was pleased to announce the official launch of the Cardigan Civic Trust to be held on 10 October. The staff and pupils of Ysgol Uwchradd Aberteifi were congratulated on their success in the external examinations this year again.

## **2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs John Adams-Lewis (gwyliau/on vacation), Gwynfi Jenkins, Neal Jones (gwaith/work commitments), Richard Jones (gwaith/work commitments).**

## **3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.** Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

## **4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Gorffennaf.** Confirmation of Minutes of 5 July Council Meeting.

**Tud. 1133, eitem 5. Bydd yn dychwelyd "ato" yn hytrach nac "ati".**

Page 1133, item 5: "Ms Thomas" added that "she" would...

**Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir.**

With the above amendments, Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Jane Roche.

## **5. Cadarnhau Cofnodion "Mewn Pwyllgor" Cyfarfod y Cyngor 5 Gorffennaf.** Confirmation of "In Committee" Minutes of 5 July Council Meeting.

## 6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1135, eitem 9(a)(iv): Mae'r borfa bellach wedi ei thorri ar Riw Ropeyard.

Tud. 1135, eitem 9(a)(v): Mae'r bandstand wedi ei ailbeintio ac yn edrych yn dda ar ei newydd wedd.

Tud. 1136, eitem 9(b)(ii): Roedd noson y ffanbaith yn llwyddiannus er i Gymru gollir'r gêm gyn-derfynol yn Euros 2016.

Tud. 1138, eitem 11 (*Maes Sgrialu*): Mae grŵp ffurfiol wedi ei ffurfio er mwyn sefydlu cwmni elusennol i ymgeisio am grantiau. Mae Ms Cathryn Morgan, Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf, yn cynorthwyo gyda'r gwaith paratoi. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Medi yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr.

Page 1135, item 9(a)(iv): The grass has been cut on Ropeyard Hill.

Page 1135, item 9(a)(v): The bandstand has now been repainted.

Page 1136, item 9(b)(ii): The fanzone evening at the Guildhall was successful although the result of Wales' semi-final match in the Euros 2016 was not so.

Page 1138, item 11 (*Skateboard Park*): An official group has now been established; it is hoped that charity status can be formed in order to apply for grants to improve the facility.

Ms Cathryn Morgan, Families First Coordinator, is on board to assist with organisation. The next meeting will be held at the Fisherman's Rest on 14 September.

## 7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Dosbarthwyd dyddiadur misoedd Gorffennaf/Awst y Maer i bob aelod yn y cyfarfod.**

The Mayor's diary for the months of July/August was distributed to all members at the meeting.

## 8. Cynllunio / Planning.

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A160658	28 Priory Street	Internal alteration, creation of access to flat, demolition of outside toilet and its associated work	<i>Nid oedd gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> Council has no objection. E-mail forwarded to members on 28/7/16. Observations forwarded to CCC on 9/8/16.
A160565	Council Offices, Morgan Street	Change of use of the ground floor from a Council District Office (B1) to a shared District Office and library facility (mixture of B1 and D1), and a small area of the first floor from office space to a library facility.	<i>Awgrymir bod y cais yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Hydref oherwydd diddordeb y cyhoedd – angen cyhoeddi hyn ar yr hysbysfwrdd a'r wefan.</i> Recommended that the application be discussed at the October 4 council meeting due to public interest of development – public notice to be displayed on notice board and website.
A160804	Plot adjacent to Llynfelin, Gwbert Road	Proposed garage/store shed.	The council has no objection in principle, but notes that the development is within the flood plain and will produce additional flow into the nearby Mwlidan stream.

### **Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:**

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Penderfyniad / Decision</i>
A160491	Harddfan, Ferwig Road	Extension of double garage/store and sunroom extension to dwelling.	<i>Mae'r cais wedi ei ganiatáu gydag amodau</i> Permission has been granted with conditions (3)

## 9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/7/16	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor/ Rent of Council Office (Gorffennaf/July).	A9	D/D	£250.00 (0.00)
26/8/16	Rent of Council Office (Awst/August). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (5, 19 Gorffennaf/July)	A9	4295	£250.00 (0.00)
	Band Lydan (Awst) / Broadband (August)	A20		£50.00 (0.00)
	Band Lydan (Medi) / Broadband (September)			£20.00 (0.00)
31/7/16	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Gorff./July)	A3	4294	£748.90 (0.00)
31/8/16	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Awst/Aug.)	A3	4296	£748.90 (0.00)
27/7/16	Trywydd: Cyfieithu ar y pryd/Simultaneous translation (5/7/16)	A18	4297	£98.40 (16.40)
31/7/16	M. & E. Pearce: Deunydd/Material (Skateboard Park)	C5	4298	£39.35 (6.56)
9/8/16	Midshire: Llungopïo / Photocopying	A7	4299	£6.41 (1.07)
9/8/16	Jewson: Drws i storfa'r Clwb Rygbi. Door to Rugby stand storeroom	C3	4300	£35.99 (6.00)
31/7/16	Bachan Deche / Handyperson (Gorffennaf/July) (Awst/August)	A19	4301	£534.60 (89.10) £475.20 (79.20)

**Cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George.**

Cllr Mark Cole proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Melfydd George.

### **Derbyniadau/Receipts:**

9/6/16	Llog y Banc / Bank interest	£3.68
11/7/16	Llog y Banc / Bank interest	£2.89

## 10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

### **(a) Y Cyng. Mark Cole:**

- (i) Dywedodd y Cyng. Cole bod y Cabinet wedi cytuno caniatáu prosiect "Teithio Llesol yn Aberteifi", a bydd y gwaith yn dechrau yn ystod hanner tymor mis Hydref. Derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r cynllun a chytunwyd y byddai rhai preswylwyr yn yr ardal tan anfantais oherwydd y system newydd. Nid oedd gan gwmni bysys Brodyr Richards unrhyw wrthwynebiad. Tybir y bydd y prosiect yn cynorthwyo diogelwch plant wrth deithio i'r ysgol gerllaw.
- (ii) Mae problemau parcio di-ri i'w gweld yn Stryd Wiliam oherwydd bod y ffordd mor gul; mae dadlwytho yn broblem enfawr a chaiff y glanhawr strydoedd anhawster wrth lanhau rhwng y cerbydau sydd yn parcio yno. Mae cyfarfod i'w drefnu rhwng Rheolwr Strydlun Trefol y cyngor sir a phreswylwyr lleol.
- (iii) Yn dilyn datganiad gan sylwebydd yn y wasg leol ynglŷn ag absenoldeb Carnifal yn y dref, dywedodd y Cyng. Cole ei fod yn barod i drafod gyda chyn-Faer tref Aberystwyth, sydd â phrofiad, y Cyng. Wendy Morris, gyda'r bwriad o ailsefydlu'r digwyddiad yn y dyfodol. Ychwanegodd y Maer y byddai masnachwyr y dref yn barod i gynorthwyo gan nodd i'r stondinau symudol. Cytunwyd i'r Maer a'r Cyng. Cole gyd-dynnu ar y prosiect.

### **(b) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) Cytunodd y Cyng. Miles bod syniadau am garnifal yn y dref yn fuddiol i'r ardal. Serch hynny, cofier bod nifer o gynghorwyr yn aelodau gweithgar yn y gymuned ac yn aelodau o fudiadau llwyddiannus a hirhoedlog.
- (ii) Mae trigolion Gloster Row yn talu'n ddrud am y maes parcio sydd wedi ei gymryd gan y cyngor sir, gyda phroblemau parcio a fandaliaeth i'r cerbydau. Awgrymir y dylid codi'r pwynt gyda Chomisynydd yr Heddlu pan fydd ar ymweliad â'r cyngor ym mis Tachwedd, ac i ystyried cais am gamerâu TCC yn yr ardal.
- (iii) Tynnwyd sylw'r cyngor gan y Cyng. Miles at ddiffyg goleuadau strydoedd sydd mor amlwg yn y dref: dim ond tri o'r 23 golau sydd yn gweithio ar Gei'r Tywysog Siarl; mae ardaloedd Pwllhai, Lôn y Farchnad, y Mwldan Isaf, a rhan uchaf Heol y Santes Fair i gyd angen eu harchwilio. Cytunodd y Cyng. Miles anfon yr wybodaeth ymlaen at wasanaethau technegol y cyngor sir.

- (iv) Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud y bydd yr adroddiad ynglŷn â gwelliannau i'r Strand rhag llifogydd yn cyrraedd ddiwedd mis Hydref.
- (v) Mae'r Pwll Nofio yn Aberteifi yn ffynnu ar ei newydd wedd. Mae posibilrwydd y bydd Cronfa Egni M&S yn medru talu am baneli haul i gynorthwyo gyda chostau egni'r pwll.
- (vi) Cynhelir Gŵyl y Cynhaeaf o 28 Medi hyd 1 Hydref yn y dref i ddathlu hanner can mlynedd ers enillodd Dic Jones y Gadair Genedlaethol gyda'i awdl enwog "Cynhaeaf".
- (vii) Yn dilyn sgwrs gyda Mr Richard Vale, awgrymodd y Cyng. Miles bod Radio Cymru yn treulio diwrnod yn Aberteifi i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn colli gwrandawyr. Cytunodd y Cyng. Miles gysylltu â Mr Vale i drefnu'r digwyddiad.
- (viii) Awgrymwyd y dylid anfon llythyr at Gyngor Sir Ceredigion i ofyn iddynt archwilio'r draeniau yn y dref sydd yn bygwth gorlifo pan ddaw'r tywydd garw.
- (ix) Ar 13 Medi bydd y pum punt newydd yn cael ei lansio gan y llywodraeth gydag ymgyrch arloesol gan Bartneriaeth Canol y Dref, "Parti Pump Aberteifi", yn rhedeg o 17 Medi hyd 1 Hydref. Mae'n gyfle i fasnachwyr lleol farchnata eitemau a chynnyrch am £5.00 wedi eu lapio gyda charden.

(a) Cllr Mark Cole:

- (i) Cllr Cole stated that the county council Cabinet had approved the "Active Travel" project earmarked for the Napier Street/Williams Terrace district. The work will commence during the October school half term. One objection had been received, and it was agreed that some residents would be disadvantaged by the scheme. However, the Richard Bros coach company had no objection. It is assumed that the improvements will assist children's safety as they travel to school.
- (ii) Parking problems are experienced in William Street due to the narrowness of the road. Unloading and cleaning of the highway between the cluster of vehicles is a continuous problem. A meeting has been arranged between the Urban Streetscene Manager of the county council and local residents.
- (iii) Following an article in the local press regarding the absence of the Carnival event in Cardigan, Cllr Cole was prepared to capitalise on the expertise and experience of a past Mayor of Aberystwyth, Cllr Wendy Morris, with the intention of re-instating the Carnival. The Mayor added that local tradespeople would assist by sponsoring floats. Cllrs Davies and Cole agreed to liaise towards this end.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles agreed that a Carnival would be beneficial for the town during the summer months. It was also stated that a number of councillors are industrious within many local committees, and are instrumental in the success of traditional and established bodies, events and festivals.
- (ii) The residents of Gloster Row are aggrieved with the new car parking measures at the county council car park, with parking problems and vandalism and damage to vehicles causing chaos. It was recommended to raise the issue with the Police Commissioner when he visits the council in November.
- (iii) The problem of street lighting in town was raised by Cllr Miles: 3 only of 23 lights on Prince Charles quay are functioning; the Pwllhai, Market Lane, upper St Mary Street and Lower Mwldan streets are all in need of reviewing by the county council street light officer. Cllr Miles agreed to forward information onto the authority's technical services department.
- (iv) Natural Resources Wales has stated that the report on the recommendation to the flood alleviation scheme for the Strand area will be published at the end of October.
- (v) The Swimming Pool in Cardigan is presently flourishing. There are possibilities of obtaining funding from the M&S Energy Fund to place solar panels in order to conserve energy at the pool.
- (vi) Gŵyl y Cynhaeaf will be held in the town from 29 September until 1 October to commemorate Dic Jones' success in winning the National Eisteddfod chair with his famous Welsh poetry (awdl) "Cynhaeaf".

- (vii) Following a discussion with Mr Richard Vale, it was recommended by Cllr Miles that Radio Cymru visits the town for a day to boost its declining figures of listeners. Cllr Miles agreed to arrange the event with Mr Vale.
- (viii) It was recommended that a letter be forwarded to the county council requesting the authority to inspect the drains in and around the town before the winter weather.
- (ix) On 13 September the new five pound note will be launched by the government. "The Cardigan Fiver Fest" pioneered by the Town Centre Partnership will be held from September 17 to October 1. It is an opportunity for local businesses to offer deals of £5 gifts wrapped up with a card.

## 11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
94	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Cydnabyddiaeth o lythyr cyngor y dref ynglŷn â thoriadau i'r gyllideb.</i> Acknowledgement of the town council's letter protesting at the severe cuts to services.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
95	CSC / CCC (Emma Poole): <i>Poster "Dewch yn Warchodwr Plant Cofrestredig yng Ngheredigion".</i> "Become a Registered Childminder in Ceredigion"	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in the notice board.
96	CSC / CCC (Osian Jones): <i>Gwybodaeth am Gynllun Mabwysiadu Llwybrau.</i> Information regarding the Adopt a Path Scheme.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members (1/9/16)
97	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Ffordd ar gau i sicrhau diogelwch pob ochr i bont Llechryd (2/8/16).</i> Road closure to clear ducts either side of Llechryd bridge (2/8/16)	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members (12/7/16)
98	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Ffordd ar gau i'r gwasanaeth carthffosiaeth (Pwllhai, 12/9/16-16/9/16).</i> Road closure for work to sewer mains (Pwllhai, 12/9/16-16/9/16)	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members (25/8/16)
99	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Newidiadau i God Ymddygiad i Gynghorwyr.</i> Changes to the Code of Conduct for Members.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members (19/8/16)
100	CSC / CCC (Steffan Gruffudd): <i>Dogfen "Llesiant yng Ngheredigion".</i> Document "Well-being in Ceredigion"	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members (12/7/16)
101	CSC / CCC (Lowri Edwards): <i>"Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd – Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion".</i> "Ceredigion County Council Overview and Scrutiny Public Engagement Protocol"	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members (7/7/16).  <i>Mae copi ar gael yn swyddfa'r clerc.</i> Copy held in the clerk's office (Legal Documents)
102	4CG: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i ddigwyddiad ym Mhwlhai.</i> An invitation to the Mayor and Mayoress to an event on 14/8/16: "The Cardigan/Aberteifi Big Lunch"	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor.
103	Sainsbury's: Mr David Mills, Head of Property Communications. <i>Cadarhad na fydd y cwmni yn parhau â'r cynlluniau i ddatblygu archfarchnad newydd yn Aberteifi.</i> Confirmation that the company will not proceed with plans to develop the proposed new store in Cardigan.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members (5/8/16).  <i>Cytunodd y Cyng. Dai Brabrook ateb sylwadau Mr Mills.</i> Cllr Dai Brabrook agreed to respond to Mr Mills' observations.
104	Mrs Carol Evans, 22 Heol y Felin, Penyparc: <i>Llythyr o ddiolch am oleuo'r bolardiau.</i> Letter of appreciation for the illumination of bollards in the High Street.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
105	Mr Lez Broughton (Cardigan Branch Royal British Legion): <i>E-bost ynglŷn â threfniadau Sul y Cadoediad.</i> E-mail regarding the organising of Remembrance Sunday.	<i>Cynhelir cyfarfod i drefnu Sul y Cadoediad yn festri Bethania ar 10 Hydref am 7.00yh.</i> The meeting to arrange the Remembrance Service will be held at Bethania vestry on 10 October at 7.00pm.
106	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:</i> <i>Poster "Sgwrs Iach – Ymunwch â'r Sgwrs Fawr".</i> Hywel Dda University Health Board:	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in the notice board.

	Poster "Let's Talk Health – Join the Big Conversation"	
107	Save the Children Christmas Jumper Day (16/12/16). <i>Diwrnod Achub y Plant</i>  The charity's annual Christmas Jumper Day campaign.  It was suggested that the town's giant cardigan be turned backwards to make it look more like a jumper!	<i>Mae'r cyngor o blaid symud ymlaen i gynnal diwrnod o hwyl gan alw'r dref yn "Jumper" am y dydd. Cytunodd y Cyng. Miles gysylltu â Ms Lisa Helier a Phwyllgor 2010 am ganiatâd i ddefnyddio'r cardigan.</i> The members agreed to support the proposed day of fun when the town will be called "Jumper" for the day. Cllr Miles agreed to liaise with Ms Lisa Helier and the 2010 Committee regarding the right to use the cardigan at the event.
108	<i>Clwb Cychod Teifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i ddangosiad cyntaf ffilm ar hanes y Clwb Cychod.</i> Teifi Boating Club: An invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Grand Premiere of the Teifi Boating Club film, 15/9/16, 7.00pm	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor. <i>Gan fydd y Maer ar ei wyliau, bydd y Dirprwy Faer yn cynrychioli'r cyngor.</i> As the Mayor will be on vacation, the Deputy Mayor will represent the council at the event.
109	Mark Williams AS/MP: <i>Dyddiadau cymorthfeydd.</i> Surgery dates	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in the notice board.
110	Mr Keith Ladd, 183 Maesglas: <i>Llythyr yn mynegi ei bryderon am fusnes canol y dref.</i> Letter outlining his concerns for the business centre of Cardigan.	<i>Gweler isod.</i> See below.
111	Mrs Philippa Gould, Coed Ceinach, Brynhafod: <i>Pryder am y darn o dir ger Brynhafod.</i> Concern regarding the grazing of the strip of land behind Brynhafod (from Feidrhenffordd to Napier Gardens).	<i>Cytunwyd bod y Cynghorwyr John Adams-Lewis ac Akira Shimazaki yn trafod y mater gyda Ms Sarah Wright, ysgrifennydd y Rhandiroedd.</i> It was agreed that Councillors John Adams-Lewis and Akira Shimazaki would discuss the matter with Ms Sarah Wright, the allotments secretary.
112	Mrs Margaret Daniel (Côr Merched Bro Nest): <i>Cais am darian y dref i'w chyflwyno i gôr o Sir Fôn.</i> Request for an official Cardigan town plaque to be presented to a visiting choir from Anglesey.	<i>Cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y darian yn cael ei chyflwyno i'r côr o Ynys Môn gyda'r amod bod cynrychiolydd y cyngor yn ei chyflwyno a bod y geiriad arni yn berthnasol.</i> It was proposed by Cllr Melfydd George and seconded by Cllr Jane Roche that the shield be presented to the choir from Anglesey with the condition that it be presented by a town council representative with an appropriate inscription.
113	Cyngor Cymuned Llangoedmor Community Council: <i>E-bost ynglŷn â chais i ganiatáu'r Maer a'r Faeres wisgo eu cadwyni ar ymweliad swyddogol â phlwyfi cyfagos.</i> E-mail regarding the protocol of the Mayor and Mayoress requesting permission to wear their chains of office on visits to nearby parishes.	<i>I'w trafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
114	Mr a Mrs M. Rees, 6 Park Avenue: <i>Cwyn ynglŷn â phenderfyniad Clwb Pêl-droed Aberteifi adael pyst y gôl o flaen eu cartref rhwng gemau.</i> Complaint regarding the decision by Cardigan FC to place the goalposts when not in use in front of their dwelling.	<i>Cytunwyd gosod yr eitem ar agenda cyfarfod blynyddol Elusen Cae Chwarae Brenin Siôr Sed ar 12 Hydref.</i> It was agreed to place the item on the agenda of the King George Playing Field Charity AGM on 12 October
115	Theatr Gydweithredol Troedyrhiw: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> To be discussed at the September Grants sub-committee.
116	Theatr Felinfach: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> To be discussed at the September Grants sub-committee.
117	Charity Commission : <i>Adroddiad Blynyddol wedi ei anfon ymlaen ar 9/8/16.</i> Annual Return has been forwarded on 9/8/16.	<i>Cae Chwarae Brenin Siôr Sed.</i> King George 5 <sup>th</sup> Playing Field. <i>Rhif elusennol/Charity No. 509062.</i>
118	The Pension Regulator: Automatic enrolment duties: Acknowledgment of declaration of compliance.	<i>Wedi ei gyflawni ar 15/7/16.</i> Completed on 15/7/16. File kept in clerk's office.

119	Archwilydd Cyffredinol Cymru: <i>Adroddiad a Thystysgrif (2015-16).</i> Auditor General for Wales: Audit Certificate and Report. Cardigan Town Council has been issued a qualified audit report.  The "Notice of Conclusion of Audit" will be placed on the notice board on 7 September for 14 days.	The following matters need to be addressed: (a) Minute reference and date of approval: (b) Internal Auditor Engagement Letter (c) Internal Auditor Date. <i>Readjustment of £50 (un-presented cheque).</i> <i>The clerk, as advised, has amended the above.</i> (a) 10 <sup>th</sup> May 2016, item 13, page 1117. (c) 27 <sup>th</sup> April 2016.
120	W. J. Williams & Davies ( <i>Cyfreithwyr/Solicitors</i> ): <i>Llythyron ynglŷn â phrydlesau'r Clwb Rygbi a'r Clwb Bowlïo.</i> Letters concerning the preparation of the leases for Cardigan RFC and Cardigan Bowls Club.	<i>I'w trafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
121	Website report of collection undertaken by Machynlleth Town Council in aid of charities.	<i>I'w trafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
122	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Gorffennaf/Awst.</i> Handyperson's July/August report.	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.
123	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Holiadur ar gyfleusterau'r meysydd chwarae i'r anabl.</i> Questionnaire regarding the accessibility of the play areas for the disabled.	<i>Mae'r clerwr a'r Cyng. Dai Brabrook wedi llanw'r holiaduron a'u dychwelyd.</i> The clerk and Cllr Dai Brabrook have completed and returned the questionnaires.

**[110] Mae Partneriaeth Canol y Dref yn ymateb i'r broblem. Cadarnhaodd y Maer bod siop flodau newydd i'w hagor yn Stryd y Priordy yn yr hydref. Oherwydd bod siop Q&S wedi cau yng Nghanolfan Teifi, mae'r lifft yno wedi ei ddigomisynu sydd yn pery problemau i'r anabl a'r oedrannus sydd yn defnyddio'r maes parcio tu cefn i Neuadd y Dref. Cytunwyd anfon llythyr at Principality Developments yn gofyn i'r cwmni ailystyried hyn.**

The Town Centre Partnership is responding to the problem of shop closures. The Mayor confirmed that a new flower shop will open in Priory Street in the autumn. The closure of the lift in Canolfan Teifi is causing problems to the elderly and infirm, especially those who park in the Guildhall car park. It was agreed to write to Principality Developments requesting the company's support to keep the lift operational.

**Ann Jones:** *Adain Cau Ffyrdd / Road Closure Section*  
**Bronwen Morgan:** *Prif Weithredwr. Chief Executive.*  
**Cathryn Morgan:** *Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator*  
**Emma Poole:** *Cydlynnydd Gofal Plant a Hyfforddiant / Childcare and Training Coordinator*  
**Lowri Edwards:** *Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Democratiadd / Group Manager – Democratic Services*  
**Osian Jones:** *Swyddog Mynediad Cymunedol / Community Access Officer*  
**Steffan Gruffudd:** *Swyddog Prosiect Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Public Services Board Project Officer*

## 12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

### Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 19 Gorffennaf.

Confirmation of 19 July Sub-committee Minutes.

### Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y cofnodion yn gywir.

Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

### Materion yn codi Matters arising

**Tud. 1143, eitem (a): Cytunwyd gosod y mater o hysbysfyrdau ac arwyddion y dref ar agenda cyfarfod y gyllideb ym mis Ionawr. Cytunodd y Cyng. Dai Brabrook gysylltu â'r Bachan Deche er mwyn ailosod yr arwyddion bys a bawd.**

**Tud. 1143, eitem (c): Cytunwyd â'r awgrym bod cyfarfodydd misol y cyngor yn dechrau am 6.00 o'r gloch o 4 Hydref 2016 ymlaen. Cynigiwyd gan y Cyng. Akira Shimazaki ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche. Roedd pawb o blaid.**

Page 1143, item (a): It was agreed to discuss interpretation boards and signs at the 2017 budget meeting. Cllr Dai Brabrook agreed to contact the Handyperson to rectify the finger posts in town.

Page 1143, item (c): The recommendation to commence monthly council meetings at 6.00pm from 4 October 2016 was agreed by members. Proposed by Cllr Akira Shimazaki and seconded by Cllr Jane Roche. All were in favour.

**Bachan Deche:** Cytunwyd am resymau iechyd a diogelwch beidio gosod pwll tywod yn y man chwarae ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed ac i ofyn i'r Bachan Deche symud yr olwyn drafferthus oddi yno.

*Handyperson:* It was agreed for health and safety reasons not to install a sandpit in the King George 5<sup>th</sup> Play Area and to ask the Handyperson to remove the offending spinning wheel.

**Menter Aberteifi:** Dywedodd y Cyng. Jane Roche bod y cwmni angen dyddiad ymweliad Commercial Christmas i ailosod y goleuadau Nadolig er mwyn trefnu'r digwyddiad. Mae marchnad Neuadd y Dref wedi profi haf llwyddiannus gyda'r holl stondinau wedi eu cymryd er bydd rhai, am resymau tymhorol, yn diflannu cyn bo hir. Da yw cyhoeddi bod yr Ŵyl Afon a Bwyd eleni wedi bod mor llwyddiannus ag erioed. Cynhelir Ffair Briodas yn y Neuadd ar 16 Hydref. Mae Menter yn pryderu bod prinder toiledau cyhoeddus ar hyd y stryd fawr. Ychwanegodd y Cyng. Davies y byddai toiledau Feidrfair ar agor dros gyfnod Ffair Aberteifi yn rhad ac am ddim.

*Menter Aberteifi:* Cllr Jane Roche stated that the company would like to obtain the time schedule for the reinstating of the Christmas lights by Commercial Christmas. Cardigan Guildhall market has experienced a successful summer with all stalls taken by tradespeople, although a number would disappear due to seasonal reasons. The River & Food Festival was once again most successful this year. A Wedding Fair will be held in the Guildhall on 16 October. The lack of public toilet facilities along the High Street is causing much concern. Cllr Davies added that the Feidrfair toilets would be open during Cardigan Fair with no charge to users.

**PACT:** Cynhelir cyfarfod nesaf PACT yng Ngorsaf yr Heddlu ar 7 Medi am 2.00yp.

*PACT:* The next PACT meeting will be held at the Police Station on 7 September at 2.00pm.

**Castell Aberteifi:** Roedd haf 2016 yn brysur iawn gyda nifer fawr o ymwelwyr yn ymweld â'r Castell. Bu'r bwyty 1176 hefyd yn brysur. Mae priodasau wedi eu cynnal yno ac mae argoelion 2017 yn addawol iawn.

*Cardigan Castle:* The summer of 2016 has been extremely busy at the Castle with many tourists visiting. The 1176 restaurant has also experienced a bumper season. Weddings have been held and 2017 looks promising.

**Pwll Nofio Aberteifi:** Diolchodd y Cyng. Catrin Miles i Jamie Morgan am seiclo ar feic llonydd tu allan i stordy B&M am saith awr er mwyn codi arian at gyfarpar campfa'r Pwll Nofio.

*Cardigan Swimming Pool:* Cllr Miles thanked Jamie Morgan for his efforts in raising funds for the Pool's gymnasium by cycling on his exercise bike for 7 hours outside the B&M stores.

**13. Personél / Personnel.**

**14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**  
Any Other Business at the Mayor's discretion.

***Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd eitemau 11[113], [120], [121] a chofnodion yr is-bwyllgor (19 Gorffennaf) mewn pwyllgor.***

***Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole.***

*In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed items 11[113], [120], [121] and the sub-committee minutes (19 July) in committee.*

*The above was proposed by Cllr Catrin Miles and seconded by Cllr Mark Cole.*

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.55yh***  
***There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.55pm.***

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....